



Ein cyf/Our ref MA(P)/CG/2636/19

Yr Arglwydd Thomas o Gwmgiedd
Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru

26 Gorffennaf 2019

Annwyl Arglwydd Thomas,

Tystiolaeth atodol ychwanegol i'r Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru

Tybiais y byddai'n ddefnyddiol cynnig tystiolaeth ychwanegol yn dilyn y sesiwn tystiolaeth lafar ar 19 Mehefin.

Mae hyn yn codi'n bennaf o'r Adolygiad Cyflym o'r Sector Cyfreithiol. Rwyf wedi derbyn yr adroddiad erbyn hyn ac fe'i hamgaeaf at eich sylw, ynghyd â chopi o'r Datganiad Ysgrifenedig i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r adroddiad bellach yn cael ei baratoi i'w gyhoeddi a bydd fy swyddogion yn cysylltu â'ch Ysgrifenyddiaeth ynglŷn â sut i drin hynny.

Llywiwyd fy ymateb i'r adroddiad gan y wybodaeth a gefais o'r ymweliadau a gynhaliais, yn unol â'ch awgrym chi, â'r Alban a Gogledd Iwerddon i ddysgu mwy am eu trefniadau awdurdodaethol a'u sectorau cyfreithiol. Rwyf wedi myfyrio ar y rhain yn y dystiolaeth atodol ychwanegol sydd wedi'i hamgáu.

Rwyf hefyd wedi cynnwys datganiad ychwanegol ynglŷn â'n safbwynt ar yr awdurdodaeth gyfreithiol, sy'n ymdrin yn arbennig â'r dewis amgen awgrymedig a drafodwyd yn ystod y sesiwn dystiolaeth.

Gwnaf sylwadau hefyd ar eich cynnig ar gyfer Cyngor y Gyfraith sydd, fel y nodais yn y sesiwn tystiolaeth lafar, â chryn botensial, yn fy marn i.

Hyderaf fod y dystiolaeth ychwanegol hon yn ddefnyddiol, a byddwn yn falch o'i harchwilio ymhellach gyda'r Comisiwn.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Brif Weinidog Cymru ac at y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'JMiles', with a stylized flourish at the end.

Jeremy Miles AC

Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit
Counsel General and Brexit Minister

Tystiolaeth atodol ychwanegol Llywodraeth Cymru: datblygu'r sector cyfreithiol yng Nghymru

Y sector cyfreithiol

A minnau'n ymwybodol o'r diddordeb y mae'r Comisiwn wedi'i ddangos yn y sectorau cyfreithiol sy'n sail i'r awdurdodaethau cyfreithiol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac yn sylweddoli'r angen am sector cyfreithiol cryf yng Nghymru, ymwelais â Chaeredin a Belfast yn ddiweddar i gyfarfod â nifer o gyfreithwyr blaenllaw. Roedd y cyfreithwyr yn cynrychioli gwahanol rannau o'r proffesiynau cyfreithiol ac roeddent yn weithgar mewn amryw rolau gwahanol, yn nodedig yn y sector preifat a'r farnwriaeth.

Fe'm calonogwyd gan fywiogrwydd y sectorau cyfreithiol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, yn enwedig y ffordd yr oedd y ddwy genedl wedi llwyddo i fanteisio ar fuddion bod yn awdurdodaethau bach ar wahân, ar yr un pryd ag elwa o agosrwydd awdurdodaeth gyfreithiol Lloegr ac addasu iddi. Mae'n bosibl mai dyma'r rheswm pam yr oedd pobl o fewn y sectorau yn ymwybodol o'r angen, er enghraifft, i gydweithredu, ac yn llwyddo i wneud hynny, ar y cyfan. Yn nodedig, er bod y ddwy awdurdodaeth yn gymharol fach, nid oedd y rhai y siaradais â nhw yn credu ei bod hi'n anodd cynnal annibyniaeth farnwrol.

Mae profiadau'r Alban a Gogledd Iwerddon yn enghreifftiau o pam a sut mae awdurdodaethau bach yn gallu gweithio er budd dinasyddion yn ogystal â gweithwyr proffesiynol. Mae llawer i'w ddysgu oddi wrthynt.

Dyma nodweddion allweddol y systemau cyfreithiol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon a arsylwais ac yr hoffwn eu gweld yn cael eu hailadrodd yng Nghymru:

- arweinyddiaeth farnwrol gref, yn enwedig gan y Penaethiaid Barnwriaeth unigol;
- Bar dynamig (yn rhan o broffesiwn hynod drefnus a rhagweithiol);
- proffesiwn cyfreithwyr sydd nid yn unig yn sicrhau gwerth economaidd trwy'r gwaith masnachol a wneir gan gwmnïau mawr, ond hefyd y gwasanaethau mwy lleol a ddarperir gan gwmnïau llai o faint sy'n llai arbenigol;
- ysgolion y gyfraith arloesol sy'n cydweithredu'n aml;
- dulliau entrepreneuriaidd o sicrhau mewnfuddsoddi; a
- chydweithio effeithiol rhwng y proffesiynau, y byd academiaidd, a'r llywodraeth.

Yr argraff gyffredinol a gefais trwy siarad â chyfreithwyr, academyddion a barnwyr yn yr Alban a Gogledd Iwerddon oedd ymdeimlad o gydgyfrifoldeb am eu system gyfreithiol a pherchenogaeth arni. Mae hyn yn dechrau trwy sicrhau bod cyfreithwyr a barnwyr y dyfodol yn cael eu haddysgu mewn ffordd sy'n adlewyrchu anghenion yr awdurdodaeth a heriau a chyfleoedd y dyfodol. Mae'n ymddangos mai un o fanteision pwysig iawn awdurdodaeth gyfreithiol lai o faint yw'r gallu i ddod â'r bobl fwyaf dylanwadol yn y gyfraith at ei gilydd a hynny, i bob pwrpas, i ddylunio a chynllunio ar gyfer eu dyfodol.

Wrth siarad â chyfreithwyr o gwmnïau cyfraith fasnachol, yng Nghaeredin yn enwedig, fe'm calonogwyd gan farn gyson ei bod yn bosibl marchnata cwmni fel un sy'n arbenigo mewn awdurdodaeth yr Alban a'r tu allan i'r Alban. Siaradais ag un partner yn un o'r cwmnïau mwy o faint a oedd yn credu'n gryf nad oeddent o'r farn bod y ffaith eu bod yn Albanwyr, neu wedi'u lleoli yn yr Alban, yn rhwystr rhag cael gwaith yn Lloegr. Roedd hefyd yn amlwg i mi fod gwaith amlawdurdodaethol yn rhywbeth sy'n digwydd yn eithaf naturiol, a bod dewis cyfraith Lloegr fel y system gyfreithiol i reoli contractau yn gyffredin ac nad yw'n cael ei ystyried yn fater o bwys. Mae gan lawer o'r cwmnïau mwy o faint bwyslais rhyngwladol hefyd ac, yn ogystal â chyflogi cyfreithwyr Albanaid, maent hefyd yn cyflogi cyfreithwyr sy'n

gymwys i weithio mewn awdurdodaethau eraill, fel mater o drefn (yn fwyaf nodedig awdurdodaeth Cymru a Lloegr).

Rwyf yn falch bod yr adolygiad cyflym wedi rhoi cyfeiriad eglur, a ategir gan dystiolaeth, i ni ar gyfer datblygu'r sector cyfreithiol. Mae canfyddiadau'r adroddiad yn cyd-fynd â'm hargraffiadau fy hun o'm hymweliadau.

Mae'n amlwg nad yw cwmnïau brodorol yn priodoli llawer o werth i gymorth ariannol Llywodraeth Cymru, a bod defnyddio grym gwario cyhoeddus Cymru i ddylanwadu yn gallu cael effaith gyfyngedig yn unig. Felly, mae angen i ni ganolbwyntio ar feysydd eraill.

Rwyf o blaid trosglwyddo gweithrediadau amlddisgyblaethol i wlad gyfagos (*nearshoring*), fel yr argymhellir gan yr adolygiad. Sylweddolaf na fydd hyn, o reidrwydd, yn cyfrannu mewn ffordd eang ac integredig at gydnerthedd y sector cyfreithiol, ond rwyf yn sicr y gall mewnfuddsoddi o'r fath arwain at ddarparu marchnad gyflogaeth fwy bywiog sy'n golygu y gellir cadw mwy o'n doniau cyfreithiol yng Nghymru.

Roedd yr ymagwedd entrepreneuraidd ac, yn wir, oportiwnistaidd a ddefnyddiwyd gan Invest NI – ac, yn hollbwysig, ei bartneriaid – at drosglwyddo gweithrediadau yn dilyn buddsoddiad Citi wedi gwneud argraff dda arnaf. Felly hefyd y ffordd yr oedd yr hyn a ddechreuodd fel swyddogaethau swyddfa gefn gwerth isel yn gallu cynyddu mewn gwerth. Gobeithiaf y gallwn gyflawni llwyddiant tebyg yng Nghymru.

Bydd angen i ni sefydlu strategaeth farchnata dargedig, yn cynnwys uwch bartneriaid mewn cwmnïau cyfraith fyd-eang a chyfrifeg.

Nodaf fod yr adolygiad yn rhoi pwyslais ar gysylltiad personol â Llywodraeth Cymru, ac rwyf wedi gofyn i uwch swyddogion benodi gwas sifil arweiniol i ymgymryd â'r rôl hon.

Cydnabyddaf bwysigrwydd arweinyddiaeth wleidyddol hefyd, a byddaf yn trafod hyn â'm cydweithwyr Gweinidogol.

Yr angen am awdurdodaeth ar wahân ar gyfer Cymru

Roedd yn amlwg iawn o'm hymweliadau â'r Alban a Gogledd Iwerddon eu bod yn ymfalchïo yn eu systemau cyfreithiol, ac yn credu'n gyffredinol y dylai'r awdurdodaethau ar wahân gael eu hamddiffyn. Mae hyn yn rhannol oherwydd eu hanes hir a'u traddodiadau, ond hefyd oherwydd bod awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân wedi bod yn rhan o'u trefniadau cyfansoddiadol ers tro.

Rhoddwyd hwb o'r newydd i hyn yn sgil ailsefydlu'r cyrff deddfwriaethol ar gyfer yr Alban a Gogledd Iwerddon, ond mae'n bwysig cofio mai'r prif reswm dros awdurdodaeth ar wahân yw'r gyfraith ei hun. Mae bodolaeth corff deddfwriaethol, ynddo'i hun, yn golygu y bydd y gyfraith yn dargyfeirio yn y dyfodol, ond cynhaliwyd awdurdodaethau cyfreithiol yr Alban a Gogledd Iwerddon yn syml oherwydd bod y gyfraith eisoes yn wahanol.

Er holl gymhlethdod cyfansoddiad y Deyrnas Unedig, ni ddylem anghofio'r syniad syml hwn: bod gwahaniaeth yn y gyfraith yn golygu bod angen trefniadau awdurdodaethol gwahanol. Ac y bydd bodolaeth corff deddfwriaethol, yn ôl ei ddiffiniad, yn golygu cyfraith wahanol. Felly, mae'r achos cyfansoddiadol dros awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ar gyfer Cymru yn bwysig ynddo'i hun. Mae'r achos hwn yn dechrau gyda'r gyfraith ei hun a'r gwahaniaeth rhwng cyfreithiau Cymru a Lloegr.

Felly, ein polisi yw bod angen corff ffurfiol o gyfraith Cymru. Byddai hyn yn cynnwys y gyfraith i gyd (gan gynnwys cyfraith gyffredin, deddfwriaeth a wneir gan Gynulliad Cymru a

Gweinidogion Cymru a deddfwriaeth a wneir gan Senedd y Deyrnas Unedig a Gweinidogion y Deyrnas Unedig sy'n berthnasol i Gymru). Yn yr un modd â'r Alban a Gogledd Iwerddon, byddai'r corff cyfraith hwn yn cynnwys deddfwriaeth ar faterion datganoledig a materion a gedwir yn ôl. Byddai hyn yn dangos nad yw cyfraith Cymru yr un peth â chyfraith Lloegr, ac yn gwahaniaethu'n briodol rhwng cyfraith benodol Lloegr ar bwnc datganoledig a'r gyfraith gyfatebol yng Nghymru. Dyma'r peth iawn a chonfensiynol i'w wneud.

Y tu hwnt i hyn, mae ymagwedd fesul cam yn bosibl. Yn ein barn ni, yr ymagwedd iawn a chonfensiynol yw y dylai corff cyfraith ffurfiol gael ei weinyddu gan lysoedd Cymru a barnwyr Cymru. Ond, yn ystod y tymor byr i'r tymor canolig o leiaf, gallai hyn fod yn fater o ffurfioldeb i raddau helaeth. Yr hyn a olygwn wrth hynny yw y gallai "Llys Cymru" a "Barnwr Cymru" fod yn labeli, i bob pwrpas. Gallai hyn hyd yn oed alluogi'r un llys i'w gyfansoddi ei hun yn Llys Cymru i ymdrin â mater cyfraith Cymru ac yna'n Llys Lloegr i ymdrin â mater cyfraith Lloegr. A gallai barnwr Cymru fod yn farnwr Lloegr hefyd, ac fel arall.

O dan fodel o'r fath, byddai'r llysoedd yn parhau i fod yn gyfrifoldeb Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi i ddechrau. Byddai hyn yn fesur dros dro, ond un a fyddai'n sefydlu'r egwyddor y dylem gael llysoedd Cymru a barnwyr Cymru. Mae hyn yn bwysig am ddau reswm.

Y rheswm cyntaf yw bod hyn yn rhywbeth y mae'n rhaid ei wneud, sut bynnag. Mae dargyfeirio'r gyfraith nid yn unig yn arwain at gyfreithiau gwahanol sydd i'w cymhwysu'n wahanol, ond hefyd yn arwain at oblygiadau ymarferol. Mae cyfreithiau gwahanol ar faterion fel ôl-ddyledion rhent a throi allan o denantiaeth, er enghraifft, yn gofyn am systemau TG, ffurflenni gweithdrefnau gwahanol ar gyfer Cymru. Po fwyaf y dargyfeiriad, y mwyaf aneffeithlon ac anymarferol y bydd i'r ddau gorff cyfraith gael eu gweinyddu gan yr un corff.

A'r ail reswm yw bod rhaid i ni ddangos hyder yn sector cyfreithiol Cymru trwy sefydlu system benodol ar gyfer Cymru. Byddai hyn yn dangos bod cyfleoedd a llwybrau gyrfaol newydd ar gael i gyfreithwyr yng Nghymru.

Er y byddai Barnwriaeth newydd Cymru yn unigryw, ni fyddai'n bodoli ar ei phen ei hun. Ni welwn unrhyw reswm pam na allai grŵp craidd o farnwyr wedi'u lleoli yng Nghymru gael eu hategu gan drefniadau trawsffiniol neu fenthyca fel y gellir defnyddio barnwyr Lloegr fel y bo'r angen.

Byddai dewisiadau amgen sydd, rywsut, yn ceisio sefydlu lle i Gymru o fewn system bresennol llysoedd Cymru a Lloegr, fel Is-adran Cymru o'r Uchel Lys, yn cyflawni'r gwrthwyneb yn ein barn ni; gan gadarnhau lle Cymru fel is-gorff o lysoedd a barnwriaeth Lloegr, i bob pwrpas. Credwn y byddai'n ddryslyd hefyd. Nid ydym yn siŵr a fwriedir i Is-adran Cymru o'r Uchel Lys ymdrin ag unrhyw achos sy'n ymwneud â Chymru (h.y. oherwydd bod un neu fwy o'r partïon yng Nghymru, neu oherwydd bod y mater sy'n cael ei ystyried yn ymwneud â Chymru) neu ymdrin â'r amgylchiadau mwy cyfyng lle mae deddfwriaeth Cymru yn berthnasol i achos. Ni fyddai penderfynu ar rôl yr is-adran yn syml y naill ffordd neu'r llall.

Sut bynnag, credwn y gallai hyn fod yn ddatrysiad rhannol yn unig i'r broblem bresennol, ac nad yw'n ystyried beth fydd yn digwydd a beth allai ddigwydd yn y dyfodol. Datrysiad rhannol ydyw yn unig, oherwydd ei fod yn ystyried y mater o safbwynt y llysoedd a'r farnwriaeth yn unig yn hytrach nag o safbwynt y gyfraith ei hun a defnyddwyr deddfwriaeth. Nid yw ychwaith yn rhoi ystyriaeth iawn i'r dargyfeiriad cynyddol sy'n anochel rhwng cyfraith Cymru a Lloegr, ac ni fyddai'n rhagweld effaith y datganoli pellach a gefnogir gan Lywodraeth Cymru. Ein man cychwyn yw'r gyfraith ei hun, nid y llysoedd neu'r farnwriaeth. Y rheswm am hyn, yn y pen draw, yw bod y llys yno i weinyddu'r gyfraith yn unig – ac mae angen i'r gyfraith honno fod yn hygyrch ac wedi'i gwneud o fewn y cyd-destun

cyfansoddiadol priodol. Mae systemau profedig ar gyfer barnwyr a llysoedd penodol ledled y byd cyfraith gyffredin, ac mae nifer fawr o'r awdurdodaethau hyn gryn dipyn yn llai na Chymru.

Byddai datganoli cyfiawnder a phlisma i'r eithaf yn golygu ymestyn cymhwysedd deddfwriaethol datganoledig yn sylweddol, a welir yn fwyaf amlwg trwy ddargyfeirio cyfraith trosedd ymhellach.

Y cynnig ynglŷn â Chyngor y Gyfraith ar gyfer Cymru

Yn olaf, rwyf wedi bod yn rhoi ystyriaeth bellach i'ch cynnig i sefydlu Cyngor y Gyfraith ar gyfer Cymru, ac fe'i croesawaf yn wresog. Mae modd o hwyluso cydweithredu o fewn sector cyfreithiol Cymru yn sicr yn gam cadarnhaol.

Rydym yn byw trwy gyfnod o adfywio o ran cyfraith Cymru a sefydliadau cyfreithiol Cymru. Mae proses yn mynd rhagddi, felly, o greu seilwaith cyfreithiol unigryw ar gyfer Cymru. Mae rhywfaint o'r seilwaith hwn, yn ogystal â bod yn gyfreithiol, yn wleidyddol ac yn gyfansoddiadol hefyd – y corff deddfwriaethol, y weithrediaeth a swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol. Mae rhywfaint yn benodol i'r gyfraith ei hun – cyfreithiau Cymru sy'n cael eu gwneud yn ddwyieithog, darpariaeth benodol ynglŷn â sut i ddehongli cyfreithiau Cymru, trefniadau gwahanol ar gyfer trefnu a chyhoeddi'r cyfreithiau hynny, ac ymgysylltu ar wahân â Chomisiwn y Gyfraith. Mae rhywfaint yn ymwneud â gweinyddu'r gyfraith – megis cynrychiolaeth barhaus (gobeithiwn) yn y Goruchaf Lys, trefniadau wedi'u teilwra ar gyfer hyfforddi barnwyr Cymru, tribiwnlysoedd Cymru, Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, CAF/CASS Cymru a Phwyllgor Sefydlog yr Arglwydd Ganghellor ar yr iaith Gymraeg. Ac, yn olaf, mae rhywfaint ohono'n ffurfio rhan o gymdeithas ddinesig ehangach yng Nghymru – er enghraifft Cymru'r Gyfraith, Cyngor y Gyfraith arfaethedig, y Comisiwn ar Gyfiawnder ei hun a rhywfaint o wahanu sefydliadol o ran Cymdeithas y Gyfraith, y Bar a'r Gylchdaith.

Fodd bynnag, mae'n amlwg bod angen i ni ddatblygu'r seilwaith hwn ymhellach am ddau reswm. Yn gyntaf, os bydd newid cyfansoddiadol, sy'n angenrheidiol yn ein barn ni, bydd angen i'r sector cyfreithiol fod yn barod. Ac i fod yn barod, mae angen i'r sector fod yn hyfyw yn economaidd ac yn ffyniannus, sy'n rhywbeth yr hoffai Llywodraeth Cymru ei weld, ni waeth am newid cyfansoddiadol.

Fel yr ydych wedi'i nodi, mae hunaniaeth gyfreithiol Cymru wedi bod dan fygythiad yn y gorffennol, ac mae wedi goroesi er gwaethaf absenoldeb, ar adegau, efallai, cynllun neu werthfawrogiad cyffredinol o'i phwysigrwydd. Fe'm tarwyd yn arbennig gan eich sylw bod datblygiadau yn ein hanes cyfreithiol wedi *“dibynnu ar ysbryd y genedl ac unigolion cryf. At hynny, mae'r datblygiadau wedi bod yn dameidiog heb unrhyw strategaeth neu nod tymor hir cytunedig”*.

Bydd yn cymryd amser i ddatblygu ein seilwaith cyfreithiol ac rydym yn annhebygol o allu atgynhyrchu'r hyn sy'n bodoli yn yr Alban a Gogledd Iwerddon ar unwaith o ystyried hanes gwahanol iawn Cymru. Fodd bynnag, fel y dywedais uchod, credaf y gallwn ddwyn hyder o lwyddiant cymharol y sectorau cyfreithiol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon a'i bod yn realistig i ni anelu at ddatblygu system a sefydliadau tebyg dros amser.

Rwyf wedi rhoi sylwadau manylach ar ran Llywodraeth Cymru yn yr atodiad.

ATODIAD:

CYNNIG CYNGOR Y GYFRAITH AR GYFER CYMRU: SYLWADAU LLYWODRAETH CYMRU

Diben

Y sylw pwysicaf yr hoffem ei wneud yw ei bod yn hollbwysig bod gan y Cyngor y Gyfraith arfaethedig ddibenion a ddiffiniwyd yn eglur. Mae ymgysylltiad llawn y proffesiynau cyfreithiol, ysgrifenyddiaeth effeithiol ac effaith y Cyngor yn y pen draw oll yn dibynnu ar hyn.

Yn ein barn ni, dylai fod dau ddiben trosfwaol, cydgysylltiedig.

Y cyntaf yw fforwm i gefnogi datblygiad y system gyfiawnder yng Nghymru (gan sicrhau bod materion sy'n benodol i Gymru yn derbyn sylw'n briodol). Felly, mae rhan o'r dasg hon yn golygu ystyried sut mae'r system bresennol yn gweithio i Gymru a beth y dylid ei wella o fewn cyfyngiadau'r setliad datganoli presennol. Dylai hyn gynnwys hygyrchedd y gyfraith, addysg a hyfforddiant cyfreithiol, effaith technolegau sy'n dod i'r amlwg, yr iaith Gymraeg ac, yn fwy cyffredinol, i ba raddau y mae'r system gyfiawnder yn ymdrin yn ddigonol â dargyfeiriad yn y gyfraith a gwahaniaethau strwythurol a llywodraethol eraill rhwng Cymru a Lloegr. Ond amcan polisi Llywodraeth Cymru, y gobeithiwn y bydd yn cael ei gefnogi gan y Comisiwn ar Gyfiawnder, yw y dylai plismona a chyfiawnder gael eu datganoli. Felly, gallai tasg ychwanegol gynnwys datblygu'r gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud gan y Comisiwn ar y mater hwn.

Dylai'r ail ddiben trosfwaol, yn ein barn ni, ganolbwyntio ar gydweithredu gyda'r nod o ddatblygu'r sector cyfreithiol ymhellach. Fel y gŵyr y Comisiwn ar Gyfiawnder, mae Llywodraeth Cymru yn adolygu sut mae'n cefnogi'r sector a sut y gallai'r sector gefnogi ei ddatblygiad ei hun yn y dyfodol yn ystod cyfnod o newid mawr. Fel y nodwyd uchod, mae sector cyfreithiol ffyniannus yn hollbwysig ar gyfer effeithiolrwydd system gyfiawnder yng Nghymru yn y dyfodol – ac mae hyn yn cynnwys nifer o faterion cysylltiedig sy'n amrywio o sut mae cyfreithwyr y dyfodol yn cael eu haddysgu yn ein hysgolion a'n prifysgolion, i sicrhau bod gan y sector arbenigedd, arbenigaeth a chapasiti digonol.

Rôl Llywodraeth Cymru

Derbyniwn fod rhaid i unrhyw ymdrech gyfunol i ddatblygu seilwaith cyfreithiol Cymru ymhellach gynnwys Llywodraeth Cymru. Dylai rhan o rôl Cyngor y Gyfraith gynnwys annog ei aelodau i ddeall eu safbwyntiau ei gilydd yn well a dysgu oddi wrth ei gilydd – a bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio elwa o'r broses hon a chyfrannu ati.

Aelodaeth ac arferion gwaith

Credwn fod angen i aelodaeth y Cyngor fod yn eang. Yn wir, o fewn rheswm, credwn y dylai aelodaeth fod yn agored i gwmnïau cyfreithiol, yn arbennig, yn ogystal â'u cynrychiolaeth gyfunol trwy Gymdeithas y Gyfraith.

Fodd bynnag, byddai Cyngor mawr a chanddo fuddiannau gwahanol yn creu anawsterau, ac awgrymwn hefyd y dylai ei waith gael ei rannu'n themâu i'w datblygu gan grwpiau neu bwyllgorau penodol, y mae eu haelodau'n gweddu orau i'r thema. Er enghraifft, hoffem i hygyrchedd cyfraith Cymru fod yn un thema a chredwn y byddai hynny'n gyfle i gasglu safbwyntiau'r rhai sy'n ymwneud fwyaf â'r mater a gweithio gyda nhw.

Ysgrifenyddiaeth

O ystyried yr ysbryd cyfunol hwnnw, mae ysgrifenyddiaeth ymrwymedig ac ymgysylltiedig yn hollbwysig i lwyddiant Cyngor y Gyfraith. Cefnogwn y syniad o ysgrifenyddiaeth dreigl o ysgolion y gyfraith Cymru, ond mae eu cefnogaeth i fenter o'r fath yn hanfodol, wrth reswm. Mae hefyd yn awgrymu y bydd gan ysgolion y gyfraith rôl allweddol i'w chwarae wrth ddatblygu'r sector cyfreithiol a'r system gyfiawnder yng Nghymru yn y dyfodol, nid dim ond fel addysgwyr cyfreithwyr y dyfodol. Felly, mae dealltwriaeth well o'r hyn y gallai ysgolion y gyfraith fod yn fodlon ei gyfrannu a sut y gallai'r sector cyfreithiol gydweithredu â nhw'n well yn rhywbeth y mae angen ei ystyried yn gynnar.

Rôl Cymru'r Gyfraith

Yn olaf, rydym yn ymwybodol iawn o'r posibilrwydd o orgyffyrddiad sylweddol rhwng y Cyngor y Gyfraith arfaethedig a rôl Sefydliad Cymru'r Gyfraith. Awgrymwn y gallai fod yn fuddiol myfyrio ar hyn a'i drafod ymhellach.

Mae Cymru'r Gyfraith wedi chwarae rhan bwysig wrth ddatblygu'r seilwaith cyfreithiol y cyfeirir ato uchod. Mae ei allu i ddwyn ynghyd aelodau uchaf a mwyaf dylanwadol y system gyfiawnder yn ddigyffelyb.

Fodd bynnag, o ystyried ei gyfansoddiad (yn enwedig, efallai, rôl y farnwriaeth), deallwn nad yw bob amser yn briodol iddo gytuno ar bolisi a gwneud cynrychiolaethau o blaid y polisi hwnnw. Mae'n anochel, bron, y bydd hyn yn achosi problem i Gyngor y Gyfraith Cymru yn ogystal (er enghraifft, oherwydd cyfraniad Llywodraeth Cymru), a byddai angen ystyried y mater hwn yn gynnar hefyd.